# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 14 Mai 2015 i'w hateb ar 19 Mai 2015

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**1. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau i dreialu gau cyffordd 41 ar yr M4? OAQ(4)2278(FM)

**2. Christine Chapman (Cwm Cynon):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â lefelau gordewdra yng Nghymru? OAQ(4)2283(FM)

**3. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o effaith ymadawiad posibl y DU o'r Undeb Ewropeaidd ar economi Cymru? OAQ(4)2281(FM)**W**

**4. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu economaidd yn ne-ddwyrain Cymru? OAQ(4)2286(FM)

**5. William Graham (Dwyrain De Cymru):** Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o sut y bydd y Bartneriaeth Masnach a Buddsoddi Trawsatlantig yn effeithio ar Gymru? OAQ(4)2284(FM)

**6. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am dai cydweithredol? OAQ(4)2275(FM)

**7. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** Sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu defnyddio cronfeydd strwythurol a buddsoddi Ewropeaidd i gynyddu cynhyrchiant ledled Cymru? OAQ(4)2288(FM)

**8. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynglŷn â dyraniad grantiau trafnidiaeth i lywodraeth leol? OAQ(4)2292(FM)**W**

**9. Gwenda Thomas (Castell-nedd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol y diwydiannau creadigol? OAQ(4)2276(FM)**W**

**10. Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd):** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Phrif Weinidog y DU yn dilyn etholiad cyffredinol y DU mewn perthynas â datganoli pellach i Gymru? OAQ(4)2291(FM)**W**

**11. Jeff Cuthbert (Caerffili):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y goblygiadau i Gymru o refferendwm arfaethedig Llywodraeth y DU ar aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd? OAQ(4)2274(FM)

**12. Gwyn Price (Islwyn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn a fydd yn cymryd lle Twf Swyddi Cymru? OAQ(4)2279(FM)

**13. Elin Jones (Ceredigion):** Beth yw cynlluniau Llywodraeth Cymru i ddathlu a hyrwyddo canmlwyddiant geni'r awdur T. Llew Jones? OAQ(4)2273(FM)**W**

**14. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Sut y mae'r Prif Weinidog yn sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn Ysbyty Plant Cymru o safon ragorol? OAQ(4)2287(FM)

**15. Alun Ffred Jones (Arfon):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar endyd cenedlaethol ar gyfer Cymraeg i oedolion? OAQ(4)2280(FM)**W**